



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gofal Cymru Care Wales

**Noyadd Wilym Lodge
Aberteifi
SA43 2NH**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/09/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Gofal Cymru Care Wales

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Gofal Cymru (Care Wales) CYFYNGEDIG
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	05 Mai 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae Gofal Cymru/Care Wales yn cynnig gofal a chymorth dibynadwy o ansawdd da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl. Mae gan rai o'r bobl becynnau gofal dwys iawn ac mae gan eraill becynnau gofal llai dwys, yn dibynnu ar eu hanghenion.

Mae'r bobl yn cael gofal gan dîm bach o staff medrus a llawn cymhelliant. Cânt eu harwain yn effeithiol gan reolwr profiadol ac ymroddedig sy'n sicrhau y caiff gwerthoedd urddas a pharch eu cynnwys yn y gwasanaeth.

Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i fonitro ansawdd ac mae'r rheolwr a'r uwch-staff yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda, mewn ffordd hyblyg ac ymatebol.

Llesiant

Mae gan y bobl lais ac mae eu dymuniadau a'u hanghenion wrth wraidd y gofal a'r cymorth a gynigir. Dangosir parch tuag at y bobl o ran rhywedd y gweithiwr gofal a, chyn belled ag y bo modd, o ran amseru galwadau.

Caiff asesiadau eu cynnal cyn i'r gofal a'r cymorth ddechrau er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu anghenion unigol. Mae'r staff yn adnabod y bobl yn dda am fod lefel uchel o barhad, sy'n golygu bod y staff yn gallu rhagweld ac adnabod unrhyw newidiadau o ran anghenion. Ceir ffocws ar ddiwallu anghenion corfforol y bobl a'u hanghenion o ran diogelwch, yn ogystal â'u hanghenion cymdeithasol, cymaint â phosibl.

Mae'r bobl yn gwbl fodlon ar y gwasanaeth maent yn eu cael gan Gofal Cymru/Care Wales, ac yn gwerthfawrogi eu cydberthynasau â'r staff. Nododd un person ei fod yn mwynhau *"having a laugh and a joke"* gyda'r staff a disgrifiodd unigolyn arall y tîm fel tîm eithriadol. Mae'r perthnasau yn eu canmol llawn cymaint, gan ddweud *"staff are friendly but very professional"* a chan gyfeirio at gynhesrwydd y staff. Mae'r bobl a'u perthnasau yn disgrifio enghreifftiau o'r gwasanaeth yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir ganddo.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac yn teimlo'n hyderus wrth godi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Maent yn hyderus y byddai eu rheolwyr yn cymryd y camau angenrheidiol i ddiogelu'r bobl.

Mae nifer sylweddol o'r staff yn siarad Cymraeg sy'n golygu y gall y bobl gael gwasanaeth yn eu dewis iaith. Gellir darparu'r cynlluniau gofal a dogfennau eraill yn Gymraeg ar gais neu os bydd eu hangen. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi gallu siarad â'r staff yn Gymraeg.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm bach o staff sy'n ymroddedig ac yn llawn cymhelliant. Disgrifiodd un unigolyn y staff fel *"very friendly and very kind"*, a dywedodd eraill bod y staff yn *"excellent"*, gydag un yn ychwanegu *"I can't fault them at all"*. Mae'r perthnasau yr un mor gadarnhaol yn eu cylch, gan ddisgrifio'r staff fel unigolion *"brilliant"* a *"reliable"*.

Soniodd rhai o'r staff am y ffaith eu bod *"like family"*. Nododd aelod arall o'r staff ei fod yn cael ei gymhell drwy weld y bobl yn hapus a gwneud gwahaniaeth. Mae'r gwasanaeth mor hyblyg ag y gall fod, gan newid amseroedd galwadau lle y bo'n bosibl i ddiwallu anghenion newidiol y bobl.

Mae'r gwasanaeth yn ddibynadwy. Mae'r nifer cywir o staff yn ymweld â'r unigolyn ac yn cyflawni eu dyletswyddau, yn unol â'r asesiad a wnaed o anghenion yr unigolyn hwnnw. Ni chafodd unrhyw alwadau eu methu, a chaiff digon o amser teithio ei gynnwys fel rhan o'r rotas i sicrhau bod gan y staff ddigon o amser. Mae gan y staff amser i sgwrsio â'r bobl ar ôl iddynt gwblhau eu dyletswyddau ac nid ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu rhuthro. Mae'r rhan fwyaf o alwadau ar amser, ac mae'r bobl yn deall os yw'r staff weithiau rywfaint yn hwyr.

Mae'r staff yn deall eu bod mewn sefyllfa freintiedig yn cael gweithio yng nghartrefi'r bobl ac yn ymwybodol o bwysigrwydd parchu'r person a'i eiddo. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd cynnal urddas y person ac maent yn gallu sôn am y ffyrdd ymarferol y maent yn gwneud hyn.

Mae'r cynlluniau gofal yn fanwl; yn llawn gwybodaeth ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn rhoi disgrifiad clir o'r unigolyn a'i anghenion. Mae'r cofnodion dyddiol yn gynhwysfawr. Mae gan y staff amser i ddarllen y cofnodion ac mae'r perthnasau yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yng ngofal y bobl. Mae dogfen ddefnyddiol ar gael ar gyfer rhai o'r bobl sy'n byw gyda dementia, sy'n nodi beth a phwy sy'n bwysig i'r unigolyn.

Ceir ffocws da ar iechyd corfforol y bobl. Gan fod y staff yn adnabod y bobl yn dda, maent yn gallu nodi unrhyw newidiadau. Maent yn monitro iechyd croen y bobl ac yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon. Weithiau, bydd y staff yn mynd gyda'r bobl i'w hapwyntiadau. Caiff y perthnasau wybod am unrhyw newidiadau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff gweithwyr eu penodi'n unol â phroses recriwtio ddiogel. Mae'r ffeiliau yn drefnus, yn hawdd eu deall ac yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen. Ceir ffocws ar sicrhau bod y staff wedi cael hyfforddiant addas, ac maent yn cwblhau hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Symud a Chodi a Chario; diogelu; rhoi meddyginiaeth yn ddiogel a gofal dementia.

Mae'r bobl yn cael gofal gan weithwyr sy'n cael eu goruchwyllo'n briodol. Caiff anghenion hyfforddiant a chymorth yr aelod unigol o staff eu trafod yn ystod y sesiynau goruchwyllo, felly hefyd y cynnydd a wnaed yn erbyn unrhyw dargedau a bennwyd. Yn ogystal â'r sesiynau goruchwyllo unigol, cynhelir hapwiriadau gan uwch-staff i sicrhau bod y staff yn gweithio i'r safon ofynnol. Hefyd cynhelir asesiadau cymhwysedd ar roi meddyginiaeth yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n cael gofal a chymorth o'r farn bod y staff yn fedrus a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol. Mae'r matrices hyfforddiant yn dangos bod y staff, ar y cyfan, wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf.

Mae'r rheolwr yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda. Mae'n weladwy a gellir cysylltu ag ef yn hawdd er mwyn cael cyngor a chymorth. Mae'n dangos gwybodaeth dda iawn am y bobl y mae'r gwasanaeth yn eu cefnogi a'r rhai sy'n bwysig iddynt. Cafodd adroddiad blynyddol cynhwysfawr ei ysgrifennu yn ogystal ag adroddiad sicrhau ansawdd sy'n dangos pa mor bwysig yw ansawdd i'r darparwr. Gofynnir i'r bobl, eu perthnasau a thîm y staff am adborth.

Mae'r bobl a'u perthnasau o'r farn bod aelodau'r tîm rheoli yn wybodus, yn broffesiynol ac yn hawdd mynd atynt. Maent yn darparu rhywfaint o ofal i'r unigolion ac o ganlyniad, mae ganddynt wybodaeth dda am y bobl a'u hanghenion. Mae'r staff yn teimlo y gallant ofyn am gyngor a thrafod syniadau ac maent yn hyderus y byddant yn cael ymateb defnyddiol ac amserol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 11/10/2023